

Bwrdd Goruchwyllo Eglwys Gadeiriol Bangor

Cyfarfod 23 Mawrth 2026, drwy fideo-gynadledda

Yn bresennol: Yr Athro Medwin Hughes (MH) (Cadeirydd)
Matthew Corbett-Jones (MC-J)
Judi Hayward (JHa)
Jane Heard (JHe)
Y Parchedig Ganon Yr Athro Peter Neil (PN)
David Halse (DH)

Ymddiheuriadau: Yr Archesgob Cherry Vann, Henry Gilbert (HG) a'r Athro Timothy Wheeler (TW)

Yn y cyfarfod: Simon Lloyd (SL)
Y Parchedig Dr Manon James (MJ)
Tomos Dobson (TD)
Deborah Tugwell (DT)
John Davies (JD)

**GWEITH-
REDU
GAN:**

1 Gweddïau agoriadol

Agorodd MJ y cyfarfod gyda gweddi.

2 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2026

Adolygwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a'u cymeradwyo i'w cyhoeddi.

DT

Materion sy'n codi

Archwiliadau diogelu

Roedd y grŵp llywio ar gyfer archwiliadau diogelu'r eglwys gadeiriol wedi cyfarfod a gofyn am newid amserlen yr archwiliadau: roedd disgwyl nawr y byddai'r archwiliad yn Eglwys Gadeiriol Bangor (yr archwiliad olaf yn y gyfres) yn cael ei gynnal ym mis Medi/Hydref.

Cytunwyd y byddai cylch gorchwyl yr archwiliadau diogelu yn cael eu dosbarthu i'r Bwrdd Goruchwyllo.

DT

Cyfansoddiad yr eglwys gadeiriol

Yn ei gyfarfod nesaf, roedd Cabidwl yr eglwys gadeiriol i fod i drafod cynigion ar gyfer diweddariadau i gyfansoddiad yr eglwys gadeiriol.

Côr y Gadeirlan

Roedd llawlyfr y côr wedi'i ddiwygio'n ddiweddar i adlewyrchu'r amgylchiadau sydd wedi newid. Ni fydd Cyfarwyddwr Cerddoriaeth newydd yn cael ei benodi yn syth.

3 Diweddariad y Deon

Rhoddodd MJ ddiweddariad llafar ar wahanol faterion yn yr eglwys gadeiriol.

a) Tomos Dobson – Rheolwr Gweithrediadau

Cyflwynwyd y Bwrdd Goruchwylio i Tomos Dobson, a oedd newydd ymgymryd â'i swydd newydd fel Rheolwr Gweithrediadau yn Eglwys Gadeiriol Bangor. Trafodwyd y rôl, y broses ymgynefino a'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol: roedd TD i fod i gwrdd â rheolwyr gweithrediadau o'r eglwysi cadeiriol eraill ac roedd rhwydwaith ar eu cyfer yn cael ei ddatblygu.

b) Cynllun gweithredu a diweddarau cynnydd gan y Cabidwl a'r Grŵp Gweithredu

Trafodwyd gweithredu'r argymhellion ac adolygwyd y ddogfen olrhain cynnydd.

Trafodwyd yr argymhellion a oedd yn ymwneud â Chadeiryddiaeth Cabidwl yr eglwys gadeiriol yn arbennig. Roedd y Bwrdd Goruchwylio o'r farn mai'r deon oedd fwyaf priodol i fod yn gadeirydd a nododd y gellid cyflawni ysbryd yr argymhelliad dan sylw, gan sicrhau bod gweithredoedd deon yn cael eu goruchwylio'n effeithiol, trwy ddulliau eraill gan gynnwys cyd-gadeirydd llewg gyda phwerau a dyletswyddau wedi'u nodi'n glir.

Byddai gwaith i ddiweddarau cyfansoddiad yr eglwys gadeiriol yn cyfeirio at Gadeiryddiaeth y Cabidwl.

c) Adolygiad llywodraethu annibynnol Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor ac Ymddiriedolaeth Esgobaeth Bangor

Roedd yr adroddiad adolygu llywodraethu wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar a oedd wedi nodi diffygion llywodraethu amrywiol ac wedi gwneud nifer o argymhellion. Nododd y Bwrdd Goruchwylio fod ysgrifennydd esgobaeth newydd wedi'i benodi a fyddai mewn sefyllfa i arwain ar weithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth.

Trafodwyd ymarfer myfyriol fel elfen bwysig o ddysgu. Pan fyddai'n ei swydd, byddai'r esgob newydd, ynghyd â'r ysgrifennydd esgobaeth newydd ac uwch staff eraill, yn gallu arwain yr esgobaeth mewn myfyrdod.

Nododd y Bwrdd Goruchwylio fod argymhelliad yn ymwneud â darparu hyfforddiant ymddiriedolwyr - ar gyfer ymddiriedolwyr Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth ac ymddiriedolwyr ardaloedd gweinidogaeth. Roedd hwn yn faes gwaith a fyddai'n cael ei drafod gyda Mainc yr Esgobion ac ysgrifenyddion esgobaethau i gynllunio sut y gellid darparu'r hyfforddiant hwn ledled y dalaith.

5 Diweddariad ar benodi Esgob Bangor

Cadarnhaodd SL nad oedd y cyfweiliadau ddiwedd mis Chwefror ar gyfer Esgob dros dro Bangor wedi arwain at benodiad yn anffodus. Yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth, roedd y Pwyllgor Sefydlog wedi cytuno i ailgychwyn proses y Coleg Etholiadol gyda chyfarfod y Coleg wedi'i gynllunio i gael ei gynnal ar 16-18 Mehefin 2026. Roedd proffil yr esgobaeth yn cael ei baratoi ar hyn o bryd cyn i hysbysiadau o'r Esgobaeth wag gael eu cyhoeddi ddechrau mis Ebrill.

6 Adolygiad o gylch gorchwyl y Bwrdd Goruchwyllo

Trafodwyd rôl y Bwrdd Goruchwyllo: nodwyd mai rôl y Bwrdd oedd goruchwyllo gweithredu'r argymhellion a darparu cymorth i'r deon a'r Cabidwl yn ôl yr angen. Cytunwyd y byddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn llai aml oherwydd y gwaith a wnaed eisoes ac er mwyn caniatáu amser i wneud gweddill y gwaith - byddai'r Bwrdd Goruchwyllo felly yn cyfarfod bob dau fis. Byddai'r cyfarfod a gynlluniwyd i gael ei gynnal ar 21 Ebrill yn cael ei ganslo gyda'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu yn cael ei gynnal ar 8 Mehefin.

Byddai'r patrwm cyfarfod diwygiedig yn cael ei gadarnhau trwy e-bost. Byddai ysgrifennydd newydd yr esgobaeth yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Goruchwyllo.

DT

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Byddai'r Bwrdd Goruchwyllo yn cyfarfod nesaf ddydd Llun 8 Mehefin 2026 am 18.00, drwy fideo-gynadledda.

Newidiwyd dyddiad cyfarfod mis Mehefin wedyn gan nad oedd aelodau'r bwrdd ar gael.